

Ein cais am Drwydded Forol

Mehefin 2018



Beth ydy Trwydded Forol?

Mae Trwydded Forol yn ganiatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni gweithgareddau penodol ar, yn ac o dan y môr. Mae hyn yn cynnwys gwaith adeiladu sy'n cynnwys gosod neu dynnu deunyddiau

yn y môr fel harbwrs neu lanfeydd, gwaith carthu, a gwaredu deunyddiau a fydd wedi cael eu carthu. I gael rhagor o wybodaeth am Drwyddedau Morol, ewch www.cyfoethnaturiol.cymru

Wylfa Newydd a gweithgareddau yn y môr

Bydd angen i Horizon gludo dros bum miliwn tonnell o ddeunyddiau adeiladu a nwyddau lles i'r safle er mwyn adeiladu Wylfa Newydd. Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni'n bwriadu dod â dros 80% o'r deunyddiau a'r nwyddau hyn i'r safle dros y môr, yn ogystal â chludo cyfarpar adeiladu yn ôl ac ymlaen o'r safle, gan leihau faint o gerbydau nwyddau trwm sydd ar y ffyrdd yn sylweddol. Pan fydd ar waith, bydd dŵr oeri o'r môr yn hanfodol er mwyn rhedeg yr Orsaf Bŵer.

Mae angen Trwydded Forol ar Horizon er mwyn cyflawni nifer o weithgareddau, dros dro wrth adeiladu Wylfa Newydd ac yn barhaol pan fydd yr orsaf ar waith.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi Cyfleuster Dadlwytho Morol ar waith, adennill tir cysylltiedig a chyfleusterau angori dros dro
- rhan o strwythurau sugno a gollwng y System Dŵr Oeri, a morgloddiau cysylltiedig a'r sianel sugno
- gwaith carthu a gwaredu deunyddiau yn y môr.

Ein cais am Drwydded Forol

Gwaith morol parhaol

Rydyn ni'n cynnig llawer o waith morol parhaol a fydd yn dal mewn lle ar ôl gorffen gwaith adeiladu'r Orsaf Bŵer a phan fydd yn weithredol. Sef:

- Cyfleuster Dadlwytho Morol a fydd yn cael ei adeiladu yn gynnar yn y rhaglen. Pan fydd yr orsaf bŵer yn weithredol, bydd hwn yn cael ei gadw er mwyn gallu dod ag offer newydd dros y môr os oes angen
- ardal o dir wedi'i adennill y tu ôl i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol er mwyn darparu ar gyfer rhai o'r cyfleusterau dros dro i adeiladu'r orsaf bŵer (ee offer gwneud concrit), ac er mwyn darparu mynediad ffordd at y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn ystod y cam gweithredu
- y strwythur sugno dŵr oeri er mwyn sugno'r dŵr môr a fydd yn cael ei ddefnyddio fel dŵr oeri, gan gynnwys systemau i rwystro, achub a dychwelyd pysgod, a sianel sugno
- dau forglawdd â rwbel ar eu pennau i ddiogelu'r strwythur sugno dŵr oeri
- strwythur gollwng y dŵr oeri i ryddhau'r dŵr môr a fydd wedi cael ei ddefnyddio fel dŵr oeri
- mesurau diogelu'r lan, fel glannau o greigiau neu waliau môr ar lethr, er mwyn atal erydiad
- goleuadau, mor unffurf ag sy'n bosibl er mwyn lleihau mannau llachar a llacharedd
- cymhorthion mordwyo, fel bwiau a marciau arwain i arwain llongau'n ddiogel
- mannau gollwng draeniau dŵr wyneb.

Gwaith morol dros dro

Rydyn ni hefyd yn cynnig yr amrywiol waith morol dros dro sydd ei angen i adeiladu'r seilwaith morol parhaol. Bydd y rhain yn cael eu tynnu ar ôl gorffen adeiladu'r Orsaf Bŵer neu'n fuan ar ôl hynny:

- ramp mynediad dros dro i'r lan, er mwyn gallu mewnforio offer adeiladu mawr a chyfarpar arall ar gyfer gwaith ar y tir
- angorfa dros dro er mwyn dod â'r deunyddiau adeiladu i mewn ar gyfer gwaith morol dilynol
- angorfa pontŵn ar gyfer badau tynnu a chychod peilot, ac angorfa 'cilfan' i longau angori os bydd angorfeydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn llawn
- argae coffr dros dro (amgaead dwrglos a fydd yn cael ei bwmpio'n sych er mwyn gallu gwneud gwaith adeiladu o dan linell y dŵr) i adeiladu'r sianel sugno dŵr oeri, a fydd hefyd yn ymgorffori sarn dros dro o dir ym Mae Porth-y-pistyll er mwyn gallu adeiladu'r morglawdd gorllewinol
- argaeau coffr dros dro er mwyn adeiladu rhan o'r sianel sugno dŵr oeri, a'r strwythurau sugno a gollwng
- cymhorthion mordwyo dros dro er mwyn helpu diogelwch llongau yn ystod gwaith adeiladu'r gwaith morol parhaol
- man gollwng dŵr gwastraff dros dro i ollwng elifion wedi'u trin o waith trin carthion dros dro yn ystod y cam adeiladu.

Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith morol dros dro a pharhaol, gan gynnwys y gwaith carthu a gwaredu deunyddiau a fydd wedi cael eu carthu, yn cael ei wneud yn ystod dwy flynedd gyntaf cam adeiladu'r Orsaf Bŵer, er gall rhywfaint o'r gwaith gymryd hyd at bum mlynedd i'w gwblhau.

Bydd gwaddodion meddal a chreigwely o'r gwaith carthu yn cael eu gwaredu yn y môr mewn ardal ddynodedig bresennol o'r enw Gogledd Caergybi. Bydd y creigwely o'r gwaith cloddio ar gyfer y sianel sugno dŵr oeri yn cael ei ailddefnyddio ar y safle. Bydd y gwaith cloddio a charthu yn golygu defnyddio peiriannau carthu, offer chwalu a thorri creigiau, badau i gludo'r deunyddiau a chychod gwaith a chychod diogelwch.

Ein cais i Gyfoeth Naturiol Cymru

Mae Horizon wedi gwneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am Drwydded Forol ar gyfer yr holl waith morol dros dro a pharhaol, y gwaith carthu a gwaredu'r deunyddiau a fydd wedi cael eu carthu yn y môr. Mae ein cais yn disgrifio'r holl waith rydyn ni'n ei gynnig mewn mwy o fanylion technegol, ac mae'n cael ei gyflwyno gydag adroddiadau asesiad amgylcheddol sy'n disgrifio'r mesurau rydyn ni'n cynnig eu cymryd er mwyn:

- lleihau'r erydiad o'r morlin
- atal ymyriad dianghenraid ar fywyd morol ac i ddefnyddwyr morol eraill
- cynnal diogelwch mordwyo, gan gynnwys gwaith marcio a goleuo
- rheoli'n gyfrifol y deunyddiau sydd i'w carthu, eu gosod a'u symud i ffwrdd.

Y camau nesaf

Yn dilyn cais Horizon am Drwydded Forol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedyn yn cynnal ei ymgynghoriad cyhoeddus ei hun cyn penderfynu a yw am gyhoeddi Trwydded Forol ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth hynny.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.horizonnuclearpower.com/hafan lle gallwch weld copi o'n cais llawn, yn ogystal â'r dogfennau ategol.

www.horizonnuclearpower.com/hafan